ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

7/9/22

Annwyl Riant / Warcheidwad

Mae'r ysgol yn bwriadu trefnu taith i bob dosbarth ym mlwyddyn 7 i Lanmadog, ar ddechrau mis Medi.

Bwriad y daith yw rhoi cyfle i ddisgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg tra'n cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gwahanol. Y bwriad yw mynd â dosbarth 7A ar ddydd Llun 12/9, dosbarth 7B ar ddydd Mawrth 13/9, 7W ar ddydd Mercher 14/9, 7E ar ddydd Iau 15/9, 7R ar ddydd Mercher 21/9 a 7T ar ddydd Iau 22/9. Byddwn yn gadael yr ysgol tua 13:30 ac yn dychwelyd tua 11.45 y diwrnod canlynol erbyn cinio ac yn mynychu gwersi'r prynhawn. Pris y daith fydd £10 sydd yn cynnwys:

- Trafnidiaeth
- Noson o lety yng nghanolfan Llanmadog
- Bwyd

Bydd angen sach gysgu, clustog, pyjamas, lliain, dillad glan, cot law a deunydd ymolchi ac un set o ddillad ychwanegol. Dim ond lle i fag bach fydd ar y bws, gan fod lle yn gyfyng a dylai'r bag fod yn gallu ffitio o dan y sedd. Ni fydd angen llawer o arian gwario ar y disgyblion.

Os carech i'ch mab / merch fanteisio ar y cyfle hwn, llenwch y bonyn sydd ynghlwm â'r llythyr hwn a'i ddychwelyd i'r ysgol gan gynnwys eich tâl o £10 a'r ffurflen feddygol erbyn ddydd Llun y 12fed o Fedi neu ddydd Gwener i 7A. Dylid talu sieciau i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe.

Gan ddiolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Miss Heledd Clarke
Pencampwr y Gymraeg

……

Rhoddaf ganiatâd i'm mab / i'm merch _____, dosbarth _____, ymuno â thaith i Lanmadog fis Medi ac amgaeaf dal o £10.

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies